

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2016-17

Gorffennaf 2017

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebo: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Diben.....	5
2.	Trosolwg	5
3.	Negeseuon allweddol.....	5
4.	Canfyddiadau'r arolygiad	6
5.	Adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a chanfyddiadau thematig	8
6.	Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith	10
7.	Llywodraethu.....	11
8.	Ymgysylltiad.....	12
9.	Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig	13

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio pob gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau yn fewnol ac allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith rydym yn anelu i:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Diben

Cynhyrchwyd yr adroddiad blynyddol hwn fel crynodeb o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan AGIC rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

2. Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGIC 24 arolygiad neu ymweliad â lleoliadau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, gan gynnwys:

- 3 arolygiad o ysbytai, ac un ohonynt yn arolygiad dilynol
- 4 arolygiad o bractisau cyffredinol
- 4 arolygiad o bractisau deintyddol, ac un ohonynt yn arolygiad dilynol
- 5 arolygiad yn ymwneud ag anableddau dysgu, ac un ohonynt yn arolygiad dilynol
- 4 ymweliad yn ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- 4 arolygiad o uned iechyd meddwl.

3. Negeseuon allweddol

Dengys yr arolygiadau a gynhaliwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod y gofal a ddarperir i gleifion yn garedig, yn dosturiol ac yn effeithiol ar y cyfan, ac yn cael ei gyflwyno gan staff ymroddedig a brwdfrydig. Gwnaeth ein gwaith amlygu'r materion canlynol a allai fod angen sylw pellach.

- Pryderon sylweddol ynglŷn â llywodraethu a goruchwyllo gwasanaethau anabledd dysgu ac iechyd meddwl
- Ansawdd y dogfennau – mae angen archwiliad cadarn er mwyn sicrhau bod y ffurflenni yn cael eu cwblhau'n llawn, eu dyddio a'u llofnodi
- Cysylltedd a mynediad unigol at systemau TG, sy'n effeithio ar hyfforddiant ac amseroldeb pan gaiff systemau Cofnod Staff Electronig eu diweddarau
- Mynediad mwy amserol at yr adran ystadau er mwyn gwneud gwelliannau amgylcheddol

- Roedd ein harolygiad o bractisau cyffredinol a deintyddol yn gadarnhaol gan fwyaf a gwelsom fod safon y dogfennau cleifion yn gyson dda, er y cafwyd pryder ynghylch breuder gwasanaethau ymarferwyr cyffredinol o fewn y bwrdd iechyd.

4. Canfyddiadau'r arolygiad

Yn ystod 2016-17, cynhaliodd AGIC waith amrywiol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg drwy'r gwaith eleni. Ceir crynodeb o'r rhain isod.

Arolygiadau o ysbytai

Cynhaliodd AGIC arolygiadau o arlwy o wardiau ac arolygiadau sy'n seiliedig ar y gwasanaeth o fewn ysbytai. Cadarnhaodd y cleifion ym mhob ardal eu bod yn fodlon â'r gofal a ddarperir gan y timau o staff. Gwelsom hefyd fod y staff yn gwrtais â chleifion ac yn eu trin â pharch a thosturi. Roedd y timau i gyd yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Fodd bynnag, canfuom rai meysydd i'w gwella megis;

- Materion amgylcheddol (ym mhob maes)
- Dogfennau (Ward Ceredig)
- Mynediad at TG (pob arolygiad)
- Meddygon yn rhagnodi meddyginiaeth mewn modd amserol (Ward Ceredig).

Iechyd meddwl

O fewn ein harolygiadau iechyd meddwl, gwelsom fod cleifion yn fodlon â'r gofal maent yn ei dderbyn a gwelsom dystiolaeth o ryngweithio gofalgarg a chadarnhaol rhwng y staff a'r cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod rhai meysydd i'w gwella megis:

- Capasiti o fewn y gwasanaeth iechyd meddwl i fodloni anghenion y boblogaeth mae'n ei gwasanaethu
- Gwella'r ddarpariaeth o weithgareddau therapiwtig ar y ward
- Mynediad at systemau TG ac yn benodol, mynediad amserol at y system Cofnod Staff Electronig er mwyn cynorthwyo'r broses o gadw cofnodion hyfforddi staff yn gywir
- Amrywiaeth o faterion amgylcheddol.

Practis cyffredinol

Gwnaethom arolygu pedwar practis cyffredinol. Er bod ein canfyddiadau o ran gwasanaethau practisau cyffredinol yn gadarnhaol gan fwyaf, ceir pryderon sylweddol o hyd ynghylch cyflenwi'r gwasanaeth hwn yn gynaliadwy ar draws y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, gwelsom fod safon cofnodion cleifion yn gyson dda, ac mae trefniadau eglur wedi'u sefydlu yn y rhan fwyaf o bractisau i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd practisau yn ymroddedig i gyflwyno gwasanaeth o ansawdd i'w cleifion, er ei bod yn anodd recriwtio a chadw staff ar hyn o bryd.

Deintyddol

Gwnaethom gwblhau chwe arolygiad o bractisau deintyddol sy'n darparu triniaeth y GIG. Roedd un ohonynt yn arolygiad dilynol. Amlygodd yr arolygiadau hyn y themâu canlynol:

- Roedd safon y broses o gadw cofnodion mewnol yn dda yn y rhan fwyaf o arolygiadau
- Roedd digon o gyfleusterau, yn y rhan fwyaf o arolygiadau, a oedd yn amlwg yn lân ac yn daclus
- Gwelsom fod gweithdrefnau rheoli heintiau a dadheintio boddhaol wedi'u sefydlu yn y rhan fwyaf o arolygiadau
- Yn y rhan fwyaf o arolygiadau, roedd y cleifion y cawsom sgwrs â nhw yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarperir ac yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad cytbwys am eu triniaeth
- Gwelsom fod angen cryfhau'r trefniadau o ran diogelu mewn rhai arolygiadau
- Mae rhai practisau angen darparu mwy o eglurder i gleifion ar sut y gallant godi pryder ynglŷn â'u triniaeth.

Anableddau dysgu

Yn ystod 2016-17, cwblhaodd AGIC bum arolygiad a oedd yn gysylltiedig â gwasanaethau anableddau dysgu (yr oedd un ohonynt yn ymweliad dilynol). Ar bob achlysur, roedd y cleifion a welsom yn edrych yn hapus a gwnaethant gyfleu eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn derbyn cefnogaeth. Gwnaeth ein harolygiadau hefyd ganfod bod y staff yn ymroddedig i gyflenwi gofal diogel ac effeithiol mewn modd caredig a pharchus. Yn ogystal, gwnaethom gasglu bod perthnasau da rhwng y gwasanaeth a darparwyr gofal iechyd sylfaenol eraill megis meddygon teulu, nyrsys practis a deintyddion. Fodd bynnag, nid oedd

gofal cleifion bob amser yn seiliedig ar anghenion unigol tymor canolig a hir cleifion. Yn ogystal, roedd dogfennau cleifion, agweddau ar reoli meddyginiaethau, llywodraethu, cefnogi staff, yr amgylchedd gofal a mynediad TG yn wael mewn rhai manau. Roeddem yn bryderus felly, ac yn parhau i fod, ynghylch y gwasanaeth cyffredinol a ddarperir ar gyfer y grŵp cleifion hwn.

Er i ni gynnal sawl cyfarfod ag uwch-staff y bwrdd iechyd, gyda'r bwriad o sicrhau bod y bwrdd yn cymryd camau gwella, dangosodd arolygiadau dilynol na weithredwyd yn brydlon ar sail yr argymhellion bob amser ac nad oedd dysgu wedi cael ei drosglwyddo ar draws y gyfarwyddiaeth.

Mae'n ymddangos bod cwrmpas sylweddol i wella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth o fewn y gyfarwyddiaeth.

5. Adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a chanfyddiadau thematig

Ni wnaethom gynnal unrhyw adolygiadau nac ymchwiliadau arbennig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystod 2016-17.

Adroddiad Thematig Gwasanaethau Anabledd Dysgu 2015-16

Yn ystod 2016-17 cyhoeddodd AGIC adolygiad thematig¹ o wasanaethau iechyd y GIG i bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru. Nod yr adolygiad oedd canfod cryfderau cyffredin a meysydd i'w gwella, ac mae'n gwneud argymhellion i fyrddau iechyd. Mae hefyd yn amlygu arfer da, i gefnogi'r broses o wella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl ag anabledd dysgu yng Nghymru. Mae canfyddiadau allweddol ar gyfer Cymru isod:

- Roedd ein canfyddiadau am y gwasanaethau a ddarperir gan dimau iechyd anabledd dysgu cymunedol yn gadarnhaol gan fwyaf
- Gwelsom fod gwasanaethau preswyl y GIG i bobl ag anableddau dysgu angen eu gwella'n sylweddol mewn llawer o feysydd

¹ <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/161208ldreviewcy.pdf>

- Gwelsom fod y bobl yn derbyn gofal unigol da fel arfer gan staff a oedd yn gwneud eu gorau i ofalu am gleifion
- Nid oedd gofal cleifion yn cael ei ategu gan drefniadau rheoli a staffio da yn aml.

Mae angen i bob bwrdd iechyd ystyried diben eu lleoliadau preswyl anableddau dysgu'r GIG a ph'un a yw'r gofal a ddarperir yn y sefydliadau hyn dim ond yn ymwneud â gofal iechyd. Os nad ydynt, dylai byrddau iechyd ystyried p'un a yw model gofal cymdeithasol yn fwy priodol.

Adroddiad Thematig Gwasanaethau Offthalmoleg 2015-16

Cyhoeddodd AGIC adolygiad thematig² o Wasanaethau Offthalmoleg yn ystod 2016-17. Nod yr adolygiad oedd edrych ar ffiniau gofal sylfaenol ac eilaidd i archwilio sut yr oedd darparwyr yn cyflwyno ac yn datblygu gwasanaethau. Canolbwynt yr adolygiad oedd Dirywiad Macwlaidd 'gwlyb' sy'n gysylltiedig â henaint, o ganlyniad i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw oedi mewn triniaeth i gleifion. Prif ganfyddiadau ein hadolygiad oedd:

- Nid oes gan wasanaethau gofal llygaid ledled Cymru ddigon o gapasiti mewn gofal eilaidd i fodloni'r gofynion presennol
- Gall absenoldeb gweithwyr allweddol achosi i rannau o'r llwybr gofal beidio â gweithio'n effeithiol gan gynyddu'r risg o niwed posibl y gellir ei osgoi i gleifion
- Mae angen gwell gwybodaeth ar fyrddau iechyd am y bwlch rhwng galw a chapasiti er mwyn gwneud penderfyniadau cytbwys i gynllunio'r gweithlu
- Clywsom y bu i gysylltiadau gweithio gwael rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd mewn meysydd rhai byrddau iechyd rwystro ymdrechion i wella'r broses o gydweithio
- Gwelsom rai mentrau newydd ledled Cymru sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau Dirywiad Macwlaidd 'gwlyb' sy'n gysylltiedig â henaint, gan gynnwys cyflwyno chwistrellwyr anfeddygol. Fodd bynnag, ni fu'r cynnydd yn y broses o ddatblygu a chyflwyno'r mentrau hyn yn gyson ar draws y byrddau iechyd.

² <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/170131opreviewcy.pdf>

Mae angen i bob bwrdd iechyd ddeall bod angen datblygu gwasanaethau ymhellach er mwyn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn llawn er mwyn cryfhau seilwaith a chynaliadwyedd gwasanaethau gofal llygaid.

6. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

Camau dilynol

Yn dilyn pob un o'n harolygiadau gwnaethom gyhoeddi adroddiad arolygu o'n canfyddiadau. Lle'r oeddem wedi nodi bod angen gwelliant, roedd hefyd yn ofynnol gennym fod y bwrdd iechyd neu'r practis yn darparu cynllun gwella ar ein cyfer gan nodi sut roeddent yn mynd i gyflawni'r gwelliannau. Ar gyfer rhai arolygiadau, byddwn yn cynnal arolygiad dilynol er mwyn sicrhau bod y cynlluniau gwella wedi derbyn sylw. Yn ystod 2016-17 cynhaliodd AGIC dri arolygiad dilynol;

- Ysbyty Bronglais – Nodwyd nifer o feysydd i'w gwella yn adroddiad 2015 parthed darparu gofal diogel ac effeithiol. Er y bu rhai gwelliannau, roeddem yn siomedig o weld fod rhai pryderon o hyd o ran darparu gofal diogel, urddasol ac amserol sy'n cyd-fynd â'r Safonau Iechyd a Gofal, yn arbennig o ran defnyddio man penodedig i ddarparu gofal i gleifion sy'n aros i gael eu derbyn i'r prif ysbyty. Fodd bynnag, cafodd AGIC ei sicrhau o hyd fod y canlyniadau cyffredinol i gleifion yn effeithiol. Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon fod strwythur y staff yn ddigonol a bod staff o bob gradd yn gweithio'n ddiwyd i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth a sicrhau bod cleifion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cymorth.

Gwelsom fod y dulliau arwain a rheoli yn amlwg ac yn effeithiol. Drwy drafod â'r staff, gwelsom fod perthynas y staff wedi gwella. Fodd bynnag, ceir pryderon o hyd ynglŷn â'r niferoedd staffio. Er i'r uwch aelodau o staff ddisgrifio nifer o ffyrdd arloesol o recriwtio staff, deellir bod hyn yn amrywio at wahanol lefelau o lwyddiant.

- Gwasanaeth Anabledd Dysgu Tŷ Bryn – O gofio nifer a natur y gwelliannau a ganfuwyd yn yr arolygiad cychwynnol, a'r cynnydd bach iawn a wnaed rhwng Mehefin 2016 a 13 Chwefror 2017, cymerodd AGIC gamau i gwrdd â chynrychiolwyr allweddol o'r bwrdd iechyd i geisio cael gwybodaeth bellach ac eglurhad o'r camau maent am eu cymryd. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu ar draws y gwasanaethau anabledd dysgu.
- Practis Deintyddol Portfield – Ni chanfuwyd unrhyw feysydd pellach i'w gwella yn ystod yr arolygiad dilynol. Roeddem yn falch o weld bod

y practis wedi rhoi sylw i'r gwelliannau sydd eu hangen. Bu gwelliant sylweddol o ran darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol. Yn ogystal, roedd trefniadau rheoli a chlinigol y practis wedi gwella'n sylweddol. Rhoddodd hyn sicrwydd i ni fod y gwasanaethau a ddarperir yn ddiogel ac wedi'u rheoli'n briodol.

Sicrwydd ar unwaith

Lle y gwnaethom nodi perygl i ddiogelwch cleifion a oedd angen camau gwella ar unwaith, gwnaethom gyflwyno llythyrau i'r bwrdd iechyd a phractisau yn unol â phroses sicrwydd ar unwaith AGIC.

Yn ystod 2016-17 bu i ni gyhoeddi chwe llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd. Er bod yr ymateb gan y bwrdd iechyd yn amserol ar y cyfan, nid oedd y camau gwella bob amser yn rhoi digon o sicrwydd bod y materion a godwyd wedi derbyn sylw, yn achos Anableddau Dysgu.

Gwnaeth AGIC gais i gynnal cyfarfod ag uwch-gynrychiolwyr y bwrdd iechyd ar bedwar achlysur er mwyn ceisio datrys y sefyllfa, gwella gofal cleifion a sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu. Mae AGIC yn parhau i bryderu am y darpariaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu o fewn y bwrdd iechyd.

7. Llywodraethu

Yn ystod 2016-17 roedd nifer o gyfleoedd i'r bwrdd iechyd ddangos ei fod yn sefydliad sy'n dysgu. Ymatebodd y bwrdd iechyd yn amserol ar y cyfan wrth i faterion godi gyda chynlluniau gweithredu cadarn. Fodd bynnag, mae gan y gyfarwyddiaeth iechyd meddwl ac anableddau dysgu dipyn o waith i'w wneud er mwyn darparu yn unol â meysydd eraill o'r bwrdd iechyd.

Gwelwyd adroddiadau arolygu yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd ansawdd a diogelwch deintyddol ac mae aelod penodedig o'r tîm Llywodraethu i ymdrin â chynlluniau gweithredu a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Fodd bynnag, nid yw'r bwrdd iechyd hyd yma wedi sefydlu dulliau llwyddiannus o rannu'r holl arfer da yn effeithiol. Er enghraifft, amlygodd yr arolygiad cychwynnol a dilynol o Tŷ Bryn fod angen trefniadau llywodraethu, arwain ac atebolrwydd effeithiol i dywys a chefnogi staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Roedd y materion hyn yn amlwg yn yr arolygiad dilynol o Lys Greville, a ddigwyddodd ddiwedd y flwyddyn, gan godi cwestiynau am effeithiolrwydd y broses o arwain a rheoli'r gwasanaeth hwn ar draws y bwrdd iechyd. Mewn nifer o arolygiadau, gwelsom yr un adborth gan y staff yn ymwneud ag oedi mewn cais i gymryd camau ar ystadau/cynnal a chadw, oedi mewn

poblogeiddio'r system Cofnod Staff Electronig, oedi mewn prosesau recriwtio staff Adnoddau Dynol a mynediad at raglenni hyfforddi electronig.

8. Ymgysylltiad

Yn ystod 2016-17 cynhaliodd Rheolwr Cysylltiadau AGIC gyfarfodydd rheolaidd â chynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd. Cafodd cysylltiadau da eu meithrin gan rannu a chyfnewid gwybodaeth. Pan fo angen, mae'r trafodaethau ynglŷn ag unrhyw sicrwydd pellach sydd ei angen yn dilyn arolygiad, neu faterion a godwyd â'r bwrdd iechyd, wedi bod yn gadarnhaol.

Mynychodd y Rheolwr Cysylltiadau hefyd nifer o bwyllgorau ansawdd, diogelwch a phrofiad Deintyddol yn ystod 2016-17.

Ar y cyfan, mae'r bwrdd iechyd wedi bod yn ymatebol i unrhyw broblemau a godwyd gan AGIC ac mae ansawdd ac amseroldeb ei ymatebion wedi bod yn foddhaol.

Cyfarfu Prif Weithredwr AGIC â Phrif Weithredwr a Chadeirydd y bwrdd iechyd yn ystod mis Mai 2016.

9. Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig

Arolygiadau o Ysbytai

1. Ysbyty Bronglais (Arolygiad dilynol)	7 Medi 2016
2. Ysbyty Bronglais	7 Medi 2016
3. Ysbyty Bronglais	11 Ionawr 2017

Arolygiadau o Bractisau Cyffredinol

4. Practis Meddygol Andrews, The Old Dental Suite, Heol Llwynhendy, Llanelli. SA14 9BN	29 Tachwedd 2016
5. Harbour View, 56 Heol yr Orsaf, Porth Tywyn. SA16 0LW	12 Ionawr 2017
6. Meddygfa Brynteg, Rhodfa Brynmawr, Rhydaman. SA18 2DA	19 Ionawr 2017
7. Meddygfa Coalbrook, Coalbrook Road, Pontyberem. SA15 5HU	7 Chwefror 2017

Arolygiadau Deintyddol

8. Meddygfa Ddeintyddol Portfield, 11 Portfield, Hwlfordd. SA61 1BN (Arolygiad dilynol)	12 Ionawr 2017
9. Practis Deintyddol Llandeilo, 18 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo. SA19 6AE	14 Mawrth 2017
10. Practis Deintyddol Llanymddyfri, 22 Stone Street, Llanymddyfri. SA20 0JP	15 Mawrth 2017
11. Practis Deintyddol West Street, 23 West Street, Penfro, Abergwaun. SA65 9AL	29 Mawrth 2017

Arolygiadau Anabledd Dysgu

12. Gwasanaeth Preswyl a reolir gan Hywel Dda	7 Mehefin 2016
13. Gwasanaeth Preswyl a reolir gan Hywel Dda	14 Mehefin 2016
14. Gwasanaeth Preswyl a reolir gan Hywel Dda	14 Mehefin 2016
15. Gwasanaeth Preswyl a reolir gan Hywel Dda	14 Gorffennaf 2016
16. Gwasanaeth Preswyl a reolir gan Hywel Dda (Arolygiad dilynol)	13 Chwefror 2017

Arolygiadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

17. Parc Tŷ Ddewi (2 ymweliad)	23 Awst 2016
19. Ysbyty'r Tywysog Philip – Bryngolau	19 Chwefror 2017
20. Ysbyty'r Tywysog Philip – Bryngolau	19 Chwefror 2017

Arolygiadau Unedau Iechyd Meddwl

21. Canolfan Iechyd Meddwl Bro Cerwyn	12 Mai 2016
22. Parc Tŷ Ddewi	23 Awst 2016
23. Ysbyty'r Tywysog Philip – Bryngolau	19 Chwefror 2017
24. Ysbyty'r Tywysog Philip – Bryngolau	19 Chwefror 2017